

Arddodiaid: Ymarferion

Rheol 1: Y Dod-o!

Arddodiaid ar ddechrau cymal/cwestiwn

Llenwch y bylchau canlynol gydag arddodiaid priodol (gan dreiglo os oes angen):

1. _____ pa orsaf radio dach chi'n hoffi gwranddo?
2. _____ pa ysgol aethoch chi?
3. _____ pwy wnaethoch chi ysgrifennu llythyr ddiwethaf?
4. _____ pwy wnaethoch chi siarad ddiwethaf (cyn dod i'r dosbarth)?
5. _____ pa ardal dych chi'n dod yn wreiddiol?
6. _____ beth wnaethoch chi sylwi wrth ddod i'r dosbarth?
7. _____ pa siop dych chi'n prynu eich bwyd fel arfer?
8. _____ pwy wnest ti ddweud y jôc?
9. _____ pa garej wnaethoch chi brynu eich car?
10. _____ beth dych chi'n poeni fwyaf?
11. _____ pa raglen deledu dych chi'n hoffi edrych?
12. _____ pwy mae'r ffilm yn mynd i apelio?

Ysgrifennwch 6 chwestiwn y byddech yn eu gofyn i ddisgybl, i fyfyrwr neu i gydweithiwr.



Rheol 1: Y Dod-o! : Lleoli Arddodiaid

Beth yw'r cwestiwn? Dechreuwch bob cwestiwn gydag arddodiad, e.e. ar, i, at.

- | | |
|-------|--|
| _____ | Bydd e'n aros am bythefnos. |
| _____ | Daethon ni ar fws rhif 65. |
| _____ | Gofynna i i'r cynghorydd. |
| _____ | Maen nhw'n byw yn y stryd nesa. |
| _____ | Mae'r ffrwythau'n dod o Dde Affrica. |
| _____ | Dwedodd e wrth Nia. |
| _____ | Dyn ni'n casglu at Barnardos. |
| _____ | Dw i'n meddwl am fy nghariad. |
| _____ | Dw i'n gweithio i Gyngor Sir Caerdydd. |
| _____ | Edrychais i ar <i>Newsnight</i> . |
| _____ | Dylech chi ysgrifennu at eich Aelod. |



Rheol 1: Y Dod-o!

Arddodiaid ar ddechrau cymal/cwestiwn

Which class will Huw be in next year? <i>In which class will Huw be next year?</i>	
Who did Miss Hughes ask the question to? <i>To whom did Miss Hughes ask the question?</i>	
Which table is the work on? <i>On which table is the work?</i>	
Which college did you go to? <i>To which college did you go?</i>	
Who did the teacher tell the story to? <i>To whom did the teacher tell the story?</i>	
Which school do they come from? <i>From which school do they come?</i>	
Which lesson are they waiting for? <i>For which lesson are they waiting?</i>	
Which room is the Headteacher in? <i>In which room is the headteacher?</i>	
Who did the teacher write a letter to? <i>To whom did the teacher write a letter?</i>	
Which choir did the singer join with? <i>With which choir did the singer join?</i>	

Ysgrifennwch 6 chwestiwn y byddech yn eu gofyn i ddisgybl, i fyfyrwr neu i gydweithiwr.

